PPLFS3W
Paratoi a chlirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â pharatoi ardaloedd gwaith ac offer gweini, ac arddangos deunyddiau hyrwyddo a bwyd yn briodol. Mae hefyd yn ymdrin â chlirio'r ardaloedd hyn, gan gynnwys diffodd offer gweini, storio pupur a halen ac ati a chael gwared ar sbwriel.

Cynnwys yr uned:

1 Paratoi ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê
2 Clirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

PPLFS3W
Paratoi a chlirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Meini prawf perfformiad

Paratoi ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Rhaid i chi allu:

P1 wneud yn siŵr bod yr ardal waith a'r offer gweini yn hylan, heb eu difrodi ac yn barod i'w defnyddio
P2 gwneud yn siŵr bod cyflenwadau digonol o eitemau gweini yn lân, heb eu difrodi ac yn barod ar gyfer gweini
P3 cynnau'r offer gweini priodol mewn da bryd fel eu bod yn cyrraedd y tymheredd a argymhellir
P4 lle bo'n briodol, paratoi ac arddangos pupur a halen ac ati a chyfwydydd yn barod ar gyfer y cyfnod gweini
P5 arddangos deunyddiau hyrwyddo yn barod i gwsmeriaid eu defnyddio
P6 gwneud yn siŵr bod cynhwysyddion sbwriel a gwastraff bwyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio
P7 arddangos bwyd yn union cyn y cyfnod gweini, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

Clirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Rhaid i chi allu:

P8 ymdrin ag offer gweini yn ôl gweithdrefnau eich gweithle
P9 casglu unrhyw eitemau gweini y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer eu clirio neu eu storio
P10 lle bo'n briodol, storio pupur a halen ac ati a chyfwydydd i'w defnyddio yn y dyfodol yn unol â deddfwriaeth hylendid bwyd
P11 cael gwared ar sbwriel, deunyddiau tafladwy a ddefnyddiwyd a gwastraff bwyd gan ddilyn y gweithdrefnau a argymhellir
P12 gwneud yn siŵr bod yr ardal waith a'r offer gweini yn lân, heb eu difrodi ac yn barod i'w defnyddio yn y dyfodol

PPLFS3W
Paratoi a chlirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Paratoi ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 arferion gweithio diogel a hylan wrth baratoi ardaloedd tecawê ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê pham bod y rhain yn bwysig
K2 pam bod yn rhaid trin a chael gwared ar wastraff yn gywir
K3 pam fod yn rhaid cynnal safonau cyflwyno wrth arddangos bwyd
K4 sut i arddangos bwyd poeth ac oer yn ddiogel a pham fod hyn yn bwysig
K5 pam ei bod hi'n bwysig gwirio dyddiad dod i ben ar fwydydd a diodydd priodol
K6 pam y dylid gwirio'r holl ddeunydd hyrwyddo cyn ei ddefnyddio
K7 pam ei bod hi'n bwysig sicrhau bod yr offer gweini cywir ar gael
K8 y mathau o sefyllfaoedd annisgwyl a all godi wrth baratoi ardaloedd a sut i ymdrin â'r rhain

Clirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Mae angen i chi wybod a deall:

K9 arferion gweithio diogel a hylan wrth glirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê a pham bod y rhain yn bwysig
K10 pam y dylid diffodd offer trydanol a nwy penodol ar ôl gorffen y cyfnod gweini
K11 pam y dylid trin a chael gwared ar wastraff yn gywir
K12 pam y dylid dychwelyd yr holl eitemau bwyd a diod darfodus i'r gegin a'r storfa yn union ar ôl y cyfnod gweini
K13 pam y dylid gadael yr holl ardaloedd gweini yn lân ar ôl y cyfnod gweini
K14 y mathau o sefyllfaoedd annisgwyl a all godi wrth glirio ardaloedd a sut i ymdrin â'r rhain

PPLFS3W
Paratoi a chlirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Gwybodaeth ychwanegol

Ystod

Paratoi ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Beth sy'n rhaid ei gynnwys:

1 Ardal waith
- 1.1 ardal weini
- 1.2 ardal eistedd
- 1.3 ardal aros

2 Offer gweini
- 2.1 unedau arddangos
- 2.2 unedau poeth
- 2.3 oergelloedd
- 2.4 offer diodydd

3 Eitemau gweini
- 3.1 hambyrddau
- 3.2 gwellt yfed
- 3.3 offer gweini
- 3.4 cynhwysyddion bwyd
- 3.5 deunydd pacio bwyd tecawê
- 3.6 napcynnau papur
- 3.7 llestri
- 3.8 cyllyll a ffyrc

4 Pupur a halen ac ati a chyfwydydd
- 4.1 sesnin
- 4.2 siwgr a melysyddion
- 4.3 sawsiau a dresin parod

5 Deunyddiau hyrwyddo
- 5.1 bwydlenni
- 5.2 posteri
- 5.3 bwrdd du/gwyn
- 5.4 bwrdd bwydlen â lluniau
- 5.5 deunyddiau hyrwyddo yn dangos cynigion
- 5.6 arbennig

Clirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Beth sy'n rhaid ei gynnwys:

6 Ardal waith

- 6.1 ardal weini
- 6.2 ardal eistedd
- 6.3 ardal aros

7 Offer gweini

- 7.1 unedau arddangos
- 7.2 unedau poeth
- 7.3 oergelloedd
- 7.4 offer diodydd

8 Eitemau gweini y gellir eu hail-ddefnyddio

- 8.1 hambyrddau
- 8.2 llestri gweini
- 8.3 cynhwysyddion bwyd
- 8.4 llestri
- 8.5 cyllyll a ffyrc

9 Pupur a halen ac ati a chyfwydydd

- 9.1 sesnin
- 9.2 siwgr a melysyddion
- 9.3 sawsiau a dresin parod

Geirfa

Llestri - Tafladwy a rhai i'w defnyddio eto

Cyllyll a ffyrc - Tafladwy a rhai i'w defnyddio eto

PPLFS3W
Paratoi a chlirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê

Datblygwyd gan	People 1st
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Ebrill 2010
Dyddiad adolygu a awgrymir	Ebrill 2012
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	People 1st
RCU gwreiddiol	O39N1FS3
Galwedigaethau perthnasol	Croeso ac Arlwyo, Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid
Cyfres/Set	Croeso – Gwasanaeth Bwyd a Diod
Geiriau Allweddol	Paratoi a chlirio ardaloedd ar gyfer gwasanaeth cownter/tecawê